# PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod o bell, 8 Ebrill, 2025.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby (Cadeirydd); Y Cynghorwyr C.E.A. Champion, P. Drake, V.P. Driscoll, A.M. Ernest, M.J. Hooper, J.M. Norman, E. Penn a J. Protheroe.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr J. Aviet, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) ac E. Williams (Aelod Cabinet Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain oddi wrth y Cynghorwyr C. Iannucci-Williams (Is-Gadeirydd) a S.T. Wiliam.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth, 2025 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. CHWARTER 3 MONITRO REFENIW 2024/25 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi cyfeiriad ac adroddiad Monitro Refeniw Chwarter 3 2024/25.

Rheswm dros yr argymhelliad

O ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r adroddiad, yn ogystal â'r trafodaethau yn y cyfarfod ac yn dilyn ystyriaeth gan Aelodau'r Pwyllgor ynghylch y sefyllfa Monitro Refeniw yn ystod y flwyddyn yn Chwarter 3.

EITEM AGENDA 5. MONITRO CYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 31 RHAGFYR, 2024 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi cyfeiriad ac adroddiad Monitro Cyfalaf Chwarter 3 2024/25.

Rheswm dros yr argymhelliad

O ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r adroddiad, yn ogystal â'r trafodaethau yn y cyfarfod ac yn dilyn ystyriaeth gan Aelodau'r Pwyllgor am y sefyllfa Monitro Cyfalaf yn ystod y flwyddyn yn Chwarter 3.

EITEM AGENDA 6. CYNLLUNIAU CYFARWYDDIAETH YR AMGYLCHEDD A THAI A LLE 2025/26 (GAN GYNNWYS GWEITHGAREDDAU, MESURAU PERFFORMIAD A THARGEDAU PERFFORMIAD CYSYLLTIEDIG) I GYFLAWNI VALE 2030, CYNLLUN CORFFORAETHOL Y CYNGOR 2025-30 (CAT / CL) –

ARGYMHELLWYD – Cymeradwyo Cynlluniau Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Thai a Lle (Atodiad A) a'r mesurau a'r targedau perfformiad cysylltiedig ar gyfer 2025/26 sydd wedi'u cynnwys ynddynt, gyda'r sylwadau a'r safbwyntiau canlynol a wnaed gan y Pwyllgor i'w cyfeirio at swyddogion perthnasol y Cyngor a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol, fel y bo'n briodol:

- Byddai'n ddefnyddiol i'r canrannau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad gael eu meintioli neu eu trosi i werthoedd ariannol neu rifau neu feintiau perthnasol eraill lle bo hynny'n berthnasol er mwyn i'r adroddiad fod mor glir â phosibl o ran yr hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni;
- Croesawyd y cynlluniau ynghylch cefnogi a defnyddio gwirfoddolwyr. Fel rhan o hyn, dylai'r Cyngor ystyried annog, cefnogi a chymell trigolion lleol i ddod yn wirfoddolwyr er mwyn helpu i gyflawni gweledigaeth y Cyngor;
- Nododd y Pwyllgor yr heriau ynghylch adnoddau a'r effaith bosibl y gallai'r rhain ei chael ar Gynlluniau Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Thai a Lle, ac, fel rhan o hyn, gofynnwyd i swyddogion y Cyngor barhau i hysbysu a diweddaru Aelodau Etholedig ar gynnydd ac oedi ynghylch y rhain drwy'r broses Graffu.

Rheswm dros yr argymhelliad

Sicrhau bod cymeradwyaeth y Pwyllgor i'r gweithgareddau arfaethedig, mesurau cysylltiedig a thargedau perfformiad ar gyfer Cyfarwyddiaethau'r Amgylchedd a Thai a Lle fel y manylir arnynt yn y Cynlluniau, ac i'r sylwadau a'r safbwyntiau a fynegwyd gan y Pwyllgor ar y rhain, yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau er mwyn i ymateb cyfansawdd gael ei ddatblygu a'i gyfeirio'n ôl i'r Cabinet.